# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 17 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae'r Gweinidog yn annog pobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain?(WAQ50202)

**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Brian Gibbons):** Gwelir ymrwymiad i wella lefelau entrepreneuriaeth drwy'r Strategaeth Menter ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid a lansiwyd yn 2004. Mae'r Strategaeth hon yn cynnal rhaglen o weithgareddau â'r nod o godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth, cynnig cyfleoedd i ddysgu a sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'w cynorthwyo i wireddu eu syniadau.

Mae'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth yn cynorthwyo rhwydwaith o hyrwyddwyr entrepreneuriaeth mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach ledled Cymru er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth ac annog a chynorthwyo pobl ifanc i ddechrau busnes. Mae rhaglen bwrsariaethau ariannol, sesiynau mentora un i un a gweithdai yn cefnogi pobl ifanc ac yn rhoi'r arian, y cyngor a'r canllawiau sydd eu hangen arnynt i sefydlu busnes. Yn ystod 2006/7 sefydlwyd 321 o fusnesau gan fyfyrwyr, a chrëwyd 395 o swyddi drwy gymorth y rhaglen hon.

Fel enillwyr Her Menter Fyd-eang 2006, roedd yn bleser gan Gymru gynnal y Gystadleuaeth Fyd-eang ym mis Mehefin 2007. Gwelwyd timau o 12 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys yr UDA, Japan, Awstralia a Seland Newydd yn cystadlu mewn her 24 awr i gynllunio gêm ar thema dinasyddiaeth fyd-eang. Dewiswyd chwe myfyriwr o Goleg Meirion Dwyfor i gynrychioli Cymru, ar ôl trechu 3000 o gystadleuwyr brwd o golegau ledled Cymru.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wneud yr A465 yn ffordd ddeuol? (WAQ50228)

**Brian Gibbons:** Yn dilyn cwblhau'r gwaith deuoli'r ffordd rhwng Tredegar a Dowlais Top (Adran 4) ym mis Tachwedd 2004, disgwylir i'r gwaith deuoli rhwng y Fenni a Gilwern (Adran 1) ddod i ben yn ystod yr hydref eleni.

Nodir rhaglen ar gyfer cwblhau'r adrannau sy'n weddill o'r gwaith o ddeuoli 40km o'r ffordd rhwng y Fenni a Hirwaun yn Atodiad 2004 i Flaenraglen y Cefnffyrdd. Mae'n amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau statudol a sicrhau bod arian ar gael. Dyma'r manylion:

Adran 2 – Gilwern i Frynmawr - Cam 2 - gallai fod yn barod i ddechrau erbyn mis Ebrill 2010.
Adran 3 – Brynmawr i Dredegar - Cam 2 - gallai fod yn barod i ddechrau erbyn mis Ebrill 2010.
Adran 5 – Dowlais Top i'r A470 - Cam 3 - Annhebygol o ddechrau cyn mis Ebrill 2010.
Adran 6 – A470 i Hirwaun - Cam 3 - Annhebygol o ddechrau cyn mis Ebrill 2010.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i liniaru tagfeydd traffig yn Hirwaun?(WAQ50230)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol am ffyrdd yn Hirwaun, yw mynd i'r afael â thagfeydd traffig yn y dref.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ymestyn y terfyn oedran uchaf ar gyfer sgrinio am ganser y fron ac, os ydyw, ar ba gam y mae'r broses?(WAQ50227)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Er na chaiff menywod dros 70 oed eu gwahodd am brofion sgrinio'r fron fel arfer, mae Bron-Brawf Cymru yn annog menywod yn y

grŵp oedran hwn i drefnu apwyntiad iddynt hwy eu hunain. Yn ystod 2006-7, cafodd 4,291 o fenywod 70 oed neu'n hŷn eu sgrinio gan Bron-Brawf Cymru.

**Helen Mary Jones (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglŷn â'r ystod o driniaethau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer osteoporosis, ac a wnaiff hi gyfeirio'n benodol at driniaethau amgen ar gyfer y rheini y mae alendronate yn anaddas ar eu cyfer?(WAQ50239)

**Edwina Hart:** Mae dulliau ymyrryd manwl yn dibynnu ar amgylchiadau cleifion unigol, ond yn gyffredinol mae'r opsiynau canlynol ar gael i glinigwyr er mwyn trin osteoporosis: -

- Therapi Adfer Hormonau (HRT) – sy'n adfer oestrogen ac yn arafu'r broses o golli cryfder yn yr esgyrn
- Bisffosffonadau - grŵp o feddyginiaethau sy'n arafu'r broses o golli cryfder yn yr esgyrn
- Strontium ranelate - ffordd ddeuol o gynyddu'r broses o ffurfio esgyrn yn ogystal ag arafu'r broses o golli cryfder yn yr esgyrn
- Raloxifene - modylydd derbynnydd oestrogen dethol

Ymhlith y triniaethau llai cyffredin eraill a ddefnyddir mae: -

- Calcitonin - hormon sy'n rheoleiddio'r broses o ffurfio esgyrn
- Calcitriol - cyfansoddyn tebyg i fitamin D y gellir ei ddefnyddio i drin osteoporosis ar ôl y menopos neu mewn sefyllfaoedd lle achoswyd osteoporosis gan gyffuriau steroid.
- Teriparatide - sy'n cynyddu'r broses o ffurfio esgyrn
- Amddiffynyddion clun - siocleddfwyr y gellir eu gwisgo i leihau'r effaith ar asgwrn y glun pe bai rhywun yn syrthio

Mae canllaw drafft NICE yn argymell defnyddio alendronate er mwyn atal osteoporosis sylfaenol ac eilaidd a'i roi i gleifion sy'n bodloni nifer o feini prawf sy'n amrywio yn ôl oedran y claf. Er bod pob triniaeth arall wedi dangos ei bod yn effeithiol, barn Pwyllgor Arfarnu NICE oedd mai alendronate oedd y driniaeth fwyaf clinigol a chost-effeithiol a arfarnwyd. Os nad yw alendronate yn addas i rai cleifion, penderfyniad clinigol y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol fyddai hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Irene James (Islwyn):** A yw'r Gweinidog yn gallu darparu amserlen o weithgarwch ar gyfer y buddsoddiad o £25 miliwn yng Nghwm Sirhywi?(WAQ50235)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Credaf fod y buddsoddiad yn rhan o'r cynllun gweithredu lleol a ffurfiwyd gan Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Dyffryn Sirhywi Uchaf. Menter leol yw hon ac ni chaiff ei harwain gan Lywodraeth y Cynulliad.

Ffurfiwyd y bartneriaeth â'r nod o adfywio cymunedau Dyffryn Sirhywi Uchaf.

Lluniwyd y cynllun ar ôl pum mlynedd o waith ymchwil ac ymgynghoriad gan y Bartneriaeth; mae'n nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau yn yr ardal yn ogystal â rolau a chyfraniadau disgwyliedig pob partner. Mae'r bartneriaeth yn disgwyl i amcanion y Cynllun gael eu rhoi ar waith dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn ddatganiad o ddyhead - ond bydd yn gyfrwng allweddol i helpu i lywio a dylanwadu ar asiantaethau partner wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn ôl pob golwg, mae'r £25 miliwn y cyfeiriwch ato yn gyfuniad o arian gan amrywiaeth o ffynonellau ariannu y mae'r Bartneriaeth yn bwriadu cymryd arian oddi wrthynt, fel rhan o'i Chynllun, er mwyn cynorthwyo ei nodau adfywio. Gallwch weld y cynllun yn:

www.uppersirhowyvalley.org.uk